**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-752
Ein cyf/Our ref KW/00530/17

Mike Hedges AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

4 Ebrill 2017

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Mawrth.

Hoffwn fod yn gwbl glir na fyddaf yn goddef unrhyw fath o fwlio yn y maes addysg yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni gwaith sylweddol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhydd o ganlyniadau seiberfwlio, a bod pob dysgwr yn cyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol. Rwyf hefyd yn disgwyl i ysgolion a gwasanaethau addysg fabwysiadu dull gweithredu tebyg a mynd i'r afael â phob achos o fwlio a seiberfwlio yn gadarn, gan sicrhau bod disgyblion yn cael eu cefnogi'n briodol.

Cyflwynwyd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar 1 Medi 2016. Dyma'r elfen gyntaf o'r cwricwlwm newydd i'w chyflwyno a bydd yn rhan o dri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd, ochr yn ochr â llythrennedd a rhifedd. Mae'r Fframwaith yn ymwneud ag ymgorffori sgiliau a gwybodaeth ddigidol ym mhopeth a wnaiff dysgwyr wrth iddynt ddatblygu drwy'r ysgol a bydd athrawon yn cymhwyso'r sgiliau digidol perthnasol yn eu gwersi yn gynyddol.

Mae elfen Dinasyddiaeth y Fframwaith yn cynnwys ffocws ar hunaniaeth, delwedd ac enw da; iechyd a lles ac ymddygiad ar-lein a seiberfwlio. Mae'r elfen yn canolbwyntio ar ddysgwyr yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u cwmpas. Bydd y sgiliau hyn yn helpu dysgwyr i werthuso eu lle o fewn y byd digidol mewn modd beirniadol, er mwyn sicrhau eu bod yn barod i wynebu'r agweddau cadarnhaol a negyddol ar fod yn ddinesydd digidol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ers mis Ionawr 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â Grid Dysgu'r De-orllewin (SWGfL) i hyrwyddo a darparu ystod o weithgareddau diogelwch ar-lein ar faterion sy'n cynnwys seiberfwlio.

Mae'r gweithgareddau hyd yma yn cynnwys darparu sesiynau hyfforddi i weithwyr addysg proffesiynol a llywodraethwyr ysgol ledled Cymru, a datblygu adnoddau i gefnogi plant, rhieni, gofalwyr ac athrawon. Mae dros 60 o ddiwrnodau hyfforddi wedi cael eu darparu dros y tair blynedd diwethaf, gyda sesiynau pellach wedi'u trefnu ar gyfer mis Mai yn benodol ar 'Ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn Ddiogel'. Yn ystod yr hydref, caiff 12 o ddigwyddiadau hyfforddi dwyieithog ar 'Fynd i'r afael â seiberfwlio a chasineb ar-lein' eu cyflwyno ar gyfer ymarferwyr addysg.

Fel rhan o'r contract gyda SWGfL, rydym wedi datblygu'r Adnodd Diogelwch Ar-lein i Gymru. Bwriad hwn oedd grymuso dysgwyr i feddwl yn feirniadol, ymddwyn yn ddiogel, a chymryd rhan yn gyfrifol yn ein byd digidol. Mae'r deunyddiau hyn yn seiliedig ar adnoddau Common Sense Media o'r Unol Daleithiau. Mae pum gwers unigol ar gyfer pob grŵp blwyddyn gyda chyfres o ddeunyddiau ategol.

Ym mis Chwefror, roeddwn yn falch o lansio'r Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb i ddarparu siop un stop sy'n rhoi gwybodaeth am faterion diogelwch ar-lein. Mae'r parth yn darparu mynediad i ffynonellau arweiniad a chyngor i ddysgwyr, rhieni ac ysgolion, yn ogystal ag ystod o adnoddau defnyddiol a dolenni i hyfforddiant a chymorth pellach gan arbenigwyr.

Er mwyn cefnogi ysgolion yng Nghymru i ddelio'n briodol â materion yn ymwneud â 'secstio', mae fy swyddogion yn gweithio gyda SWGfL a rhanddeiliaid addysg i addasu, rhoi yn eu cyd-destun a chyfieithu canllawiau Canolfan Diogelwch y Rhyngrwyd y DU 'Sexting in schools and colleges: Responding to incidents and safeguarding young people'. Bydd y canllawiau hyn ar gael i ysgolion yng Nghymru yn ystod tymor yr haf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cyfres o ddeunyddiau canllaw gwrth-fwlio – 'Parchu eraill' – sy'n rhoi cyngor a chymorth i ysgolion a gwasanaethau addysg i reoli achosion o fwlio. Wrth i fwy o mwy o ysgolion ymateb i her gynyddol seiberfwlio, mae'n hanfodol bod ysgolion yn deall y problemau, yn gwybod sut i atal ac ymateb i achosion, ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y materion cyfreithiol sy'n ymwneud â'r pwnc heriol hwn. Dyna'r union reswm pam – fel rhan o'r gyfres hon o ddeunyddiau canllaw – yr ydym wedi llunio cyngor penodol ar sut y dylai ysgolion a gwasanaethau addysg ymateb i achosion o seiberfwlio.

Rhaid i bob ysgol, yn ôl y gyfraith, fod â pholisi ymddygiad ysgol ar waith. Dylai strategaethau gwrth-fwlio effeithiol fod yn ganolog i'r polisi ymddygiad hwnnw a chael eu datblygu a'u rhoi ar waith gan bawb yn yr ysgol, yn cynnwys y disgyblion.

Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol ein bod yn gweithredu mewn byd sy'n newid yn barhaus a rhaid i ni bob amser fod yn effro i dechnolegau newydd a'r ffordd y maent yn cael effaith – gadarnhaol a negyddol – ar fywydau pobl ifanc. Rwyf wedi cytuno felly y dylai'r canllawiau 'Parchu eraill' cyfredol gael eu hadolygu a'u diweddaru i sicrhau eu bod yn parhau'n addas at y diben ac yn parhau i gefnogi ysgolion ac ymarferwyr yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau diogelu statudol ‘Cadw dysgwyr yn ddiogel’ i helpu ysgolion a cholegau addysg bellach i sicrhau bod materion lles plant yn cael eu nodi a bod modd gweithredu arnynt. Mae’r canllawiau’n amlinellu cyfrifoldebau gwasanaethau addysg i wella dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a chadernid plant drwy’r cwricwlwm ac maent hefyd yn rhoi cyngor penodol ar e-Ddiogelwch.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd fodiwlau diogelu e-ddysgu hydref diwethaf, wedi’u hanelu at holl staff ysgolion, i helpu ymarferwyr i ddeall eu rolau a’u cyfrifoldebau diogelu. Gellir gweld y rhain ar Hwb. Bydd dau fodiwl sy’n canolbwyntio’n benodol ar ddiogelwch ar-lein yn cael ei ychwanegu’n fuan at y gyfres hon i helpu i wella dealltwriaeth ymarferwyr a llywodraethwyr ysgol o faterion diogelwch ar-lein. Bydd seiberfwlio yn rhan o’r modiwl hwn.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i’ch sicrhau bod gwaith sylweddol eisoes yn mynd rhagddo yn y maes hollbwysig hwn, i helpu dysgwyr i gadw’n ddiogel ar-lein ac i’w paratoi i fod yn ddiogel ac yn gyfrifol, meddwl yn feirniadol, ymddwyn yn ddiogel, a chymryd rhan yn gyfrifol yn ein byd digidol.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education